# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 14 Ionawr 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(239)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau**
**NDM5666 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jocelyn Davies (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Alun Ffred Jones (Plaid Cymru).

**3 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyflogau Uwch-reolwyr (60 munud)**
**NDM5664 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyflog Uwch Reolwyr, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2014.

Sylwer: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Ionawr 2015.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Ymateb Llywodraeth Cymru

**4 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)**
**NNDM5630**
**Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**
**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**
**Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**

Cynnig bod Cynlliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi:
a) bod menywod wedi gwneud cyfraniad enfawr i fywyd gwaith Cymru ac yn parhau i fod yn rhan hanfodol o economi Cymru;

b) ei bod bron i 100 mlynedd ers i fenywod gael y bleidlais a bron i 40 mlynedd ers y Ddeddf Cyflog Cyfartal;

c) bod gan Lywodraeth Cymru ran bwysig i'w chwarae o ran sicrhau nad oes gwahaniaethu sefydliadol yn digwydd yn y gweithle.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i beidio â dyfarnu contractau caffael neu arian grant Llywodraeth Cymru i gwmnïau nad oes ganddynt unrhyw gyfarwyddwyr benywaidd ar

eu byrddau.

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5665 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhyddhad ardrethi busnesau bach tan fis Mawrth 2015;

b) bod Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi yn natganiad yr Hydref ar 3 Rhagfyr 2014 y bydd gan Lywodraeth Cymru reolaeth lawn dros ardrethi busnes ym mis Mawrth 2015.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn cymorth ardrethi busnes i fusnesau bach.

3. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i helpu i gryfhau cysylltiadau rhwng sefydliadau addysg uwch a'r gymuned fusnes i greu economi fwy dynamig.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

y gall prifysgolion chwarae rhan hanfodol yn y broses o greu busnesau newydd gwerth uchel, er enghraifft drwy ychwanegu 261 o gwmnïau deilliedig newydd at economi Cymru yn 2012/13.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

mai Caerdydd yw'r unig ddinas yng Nghymru sydd ymhlith yr 20 o ddinasoedd gorau yn y DU ar gyfer dechrau busnesau newydd.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu opsiynau i sicrhau bod prisiadau ardrethi busnes yn olrhain y farchnad yn fwy cywir ac yn lliniaru ar gynnydd mawr mewn biliau ardrethi yn y dyfodol.

**Gwelliant 4 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adnewyddu'r cynllun cyfredol ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach am flwyddyn arall.

**Gwelliant 5 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn y meini prawf cymhwyster ar gyfer y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach o fis Ebrill 2015 ymlaen i gyrraedd pob busnes sydd â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai.

**Gwelliant 6. - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu olynydd i'r cynllun POWIS i annog gweithio mewn partneriaeth a datblygu cwmnïau deillio yn sefydliadau addysg uwch Cymru.

**6 Cyfnod Pleidleisio**

**7 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5663 Lynne Neagle (Torfaen)**

Pris glo - effaith glo brig yn Farteg a'r goblygiadau i gymunedau y tu hwnt i'r ardal

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 20 Ionawr 2015